



COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Neil Prior Yr Uwch-arolygydd Craig Templeton Phil Kloer	Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) Heddlu Dyfed-Powys Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd)
Richard Brown Darren Mutter	Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Sir Penfro Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Penfro
Rebecca Evans	Uwch-swyddog Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tom Sawyer	Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
Mydrian Harries	Prif Swyddog Cynorthwyol – Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huwel Manley Iwan Thomas Tegryn Jones	CNC Prif Swyddog Gweithredol, PLANED Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Sue Leonard	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)
Y Cynghorydd Elwyn Williams Steven Jones (SPJ)	Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro
Barry Walters Anna Malloy	Pennaeth, Coleg Sir Benfro Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (gadawodd am 10.40am)
Claire Germain	Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru
Jo McCarthy	Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (cyrhaeddodd am 11.15am)

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards Amy Richmond-Jones	Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ymddiheuriadau

Caroline Drayton
Alison Perry

Rheolwr Gweithrediadau, CNC
Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu
a Throseddu

Dechreuodd y cyfarfod am 10am.

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf / cofnod camau gweithredu

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2023 yn gofnod cywir. Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod wedi'u cwblhau.

3. Cymeradwyo cynllun llesiant drafft i'w gymeradwyo gan bartneriaid statudol

Eglurodd NE y gofyniad bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymeradwyo'r cynllun drafft llesiant terfynol i alluogi partneriaid statudol unigol i'w gymeradwyo. Dywedodd fod y newidiadau a wnaed i'r fersiwn o'r cynllun drafft ar gyfer ymgynghori i'w gweld mewn testun coch a bod y testun i'w ddileu â llinell drwyddo.

Nododd fod adborth o'r ymarfer ymgynghori a phartneriaid statudol wedi'i gynnwys yn y pecyn agenda a thynnodd sylw at y canlynol mewn perthynas ag ymatebion gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi codi'r mater o ddiffyg cyfeiriad at y Gymraeg yn y ddogfen ac at y weledigaeth a osodwyd yn ei strategaeth Cymraeg 2050, felly roedd ymateb arfaethedig yn cysylltu'r ddogfen ag uchelgeisiau'r cynllun llesiant wedi'i gynnwys yn y crynodeb o'r ymgynghoriad i'w gynnwys yn y fersiwn derfynol.
- Roedd dau ymateb wedi'u cynnwys gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – roedd hyn oherwydd ei bod eisoes wedi gwneud sylwadau ar y cynllun drafft fel rhan o'r cyngor a ddarparwyd ganddi yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2022 cyn i'r ymgynghoriad ar y cynllun ddechrau, felly roedd ei hymateb at yr ymgynghoriad yn cyfeirio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl at y cyngor cychwynnol hwn.

Unwaith y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gymeradwyo, byddai'r cynllun yn cael ei anfon at bartneriaid statudol i'w gymeradwyo drwy eu prosesau llywodraethu eu hunain. Byddai fersiwn derfynol y cynllun yn dod yn ôl i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2023 i'w gymeradwyo'n derfynol cyn ei gyhoeddi.

Yna, rhoddodd LR drosolwg byr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan nodi'n benodol y cyfraniad gwerthfawr gan bobl ifanc yng Nghynulliad Ieuenctid Sir Benfro a Chyngor

leuenctid Aberdaugleddau. Roedd dogfen drosolwg yr ymgynghoriad wedi'i strwythuro yn unol â'r meysydd prosiect a nodwyd yn y cynllun a chafwyd adborth perthnasol gan bob cyfrannwr, gan gynnwys ymgynghoreion statudol (lle cafwyd ymatebion). Er bod y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad wedi bod yn isel, roedd yr adborth i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd drwy sesiynau gyda grwpiau a thrwy EngagementHQ yn werthfawr, gan dynnu sylw at faterion o fewn y cynllun a dealltwriaeth gyffredinol o rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cododd partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Gofynnodd TJ p'un a ellid adlewyrchu'r Gymraeg yn well yn y cynllun *Cryfhau Cymunedau*. Gofynnodd hefyd am eglurhad ynghylch llywodraethu a chymeradwyo'r ddogfen, gan fod amserlenni tynn yn golygu bod y cynllun wedi'i gymeradwyo gan y cyngor cyn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Soniodd hefyd am y diffyg manylder ym maes prosiect *Adeiladu economi gynaliadwy, deg a gwyrdd*.
- Nododd CG fod yr adran a ychwanegwyd ynghylch ymgysylltu yn ddefnyddiol i amlinellu bwriadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod yr adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'i ymgorffori yn y cynllun yn dda.
- Holodd MH hefyd ynghylch y broses ar gyfer cymeradwyo'r cynllun gan bartneriaid statudol.
- Gofynnodd SPJ p'un a ellid ychwanegu caffael lleol a gwaith teg i'r testun sy'n ymwneud â maes prosiect *Adeiladu economi gynaliadwy, deg a gwyrdd*.
- Dywedodd sawl partner fod angen mwy o eglurder ynghylch cyflawni, amserlenni a mesur cynnydd.

Gyda golwg ar faes prosiect *Adeiladu economi gynaliadwy, deg a gwyrdd*, nododd NE ei bod yn debygol y byddai rôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth helpu i gefnogi'r gwaith hwn yn y dyfodol, fel y trafodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2023, ond nid oedd y rôl hon wedi'i diffinio eto. Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dymuno cymryd rhan yn y gwaith hwn yn y dyfodol – er enghraifft, ynghylch materion sy'n ymwneud â'r economi gylchol neu gynhyrchu bwyd lleol.

Ynglŷn â chymeradwyaeth statudol i'r cynllun, mater a godwyd gan TJ ac MH, nododd NE y bu'n rhaid i Gyngor Sir Penfro gymeradwyo'r cynllun cyn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oherwydd amserlenni a dyddiadau cyfarfodydd byrddau partner statudol. Fodd bynnag, byddai graddfa'r newidiadau a fyddai'n cael eu gwneud i'r cynllun, yn unol â chymeradwyaeth partneriaid statudol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn gyfyngedig ac ni fyddent yn cael effaith sylweddol ar y fframwaith eang a'r ymdeimlad o gyfeiriad a nodir yn y cynllun a meysydd prosiect unigol. Yn ogystal, nid yw'r cynllun yn ddogfen sefydlog ac felly mae'n agored i newid wrth i heriau newydd godi, felly bydd angen cadw'r ddogfen mor hyblyg â phosibl bob amser. Byddai cyflwyno'r cynllun yn cael ei drafod o dan yr eitem nesaf ar yr agenda.

Nododd LR hefyd y byddai Grŵp Ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfarfod ar 15 Mawrth i drafod beth oedd y gofynion ymgysylltu o fewn pob maes prosiect o'r cynllun a sut y gellid rheoli'r rhain gyda chefnogaeth Cydgynhyrchu Cymru yn y dyfodol.

Byddai'r diwygiadau a nodir uchod ac yn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu gwneud cyn cyhoeddi'r cynllun. Pleidleisiodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unfrydol i gymeradwyo cynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-28 yn ffurfiol.

4. Trefniadau cyflwyno, monitro ac adrodd y cynllun llesiant

Rhoddodd NE gyflwyniad byr, gan dynnu sylw at y grwpiau cyflawni presennol a'r aelodaeth ac awgrymodd y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach ystyried ymhellach sut y byddai'r cynllun yn cael ei gyflawni a'r cynnydd yn cael ei fonitro.

Dywedodd NP ei fod wedi trafod cyflawni'r cynllun mewn perthynas â'r camau tlodi gyda DM a chynigiodd y dylai'r un strwythur cyflawni Aur/Arian/Efydd fod yn berthnasol i grwpiau cyflawni eraill, gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eistedd ar lefel Aur ac yn cynnal trosolwg eang o weithgarwch a chyfrifoldeb am herio meysydd sy'n tanberfformio. Byddai grwpiau prosiect wedyn yn eistedd ar y lefel Arian, gyda grwpiau sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflwyno agweddau penodol o'r cynlluniau prosiect ar lefel Efydd. Cynigiodd hefyd ffocws ar un maes gwaith ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, lle byddai'r arweinydd ar gyfer y maes prosiect hwnnw'n cael ei ofyn i roi trosolwg o'r cynnydd a thynnu sylw at unrhyw faterion o ran cyflawni neu gyfranogiad ehangach gan bartneriaid.

Trafododd partneriaid yn fyr y cynnig ynghylch strwythur grwpiau cyflawni a sut i gynnwys grwpiau presennol yn y gwaith a fyddai'n eistedd ar y lefel Efydd. Byddai NP yn cyfarfod ag NE ac LR ar wahân i ymhelaethu ar y cynnig yn fwy manwl fel y gellid cyflwyno darlun mwy cadarn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gyda golwg ar faes prosiect *Cryfhau Cymunedau*, byddai MH, PK ac CG, ynghyd â chynrychiolydd o Fenter Iaith (fel yr awgrymwyd gan TJ) yn ffurfio'r grŵp cyflawni ar gyfer y prosiect. Gofynnodd NP i LR drefnu cyfarfod i'r grŵp hwn ddechrau trafodaethau ynghylch cyflawni a chyfranogiad ehangach grwpiau lefel Efydd yn y gwaith.

Cytunodd SPJ i fod yn ddolen gyswllt rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Fforwm Uchelgais Economaidd Sir Benfro, i ddod ag unrhyw feysydd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lle gallai ychwanegu gwerth neu ehangu ar weithgarwch parhaus.

5. Adeiladu'r sylfeini ar gyfer rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru

Rhoddodd NP ddiweddariad ar y gweithdy a fynychodd ym mis Chwefror a oedd wedi canolbwyntio ar drafodaeth am ffyrdd o weithio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sut y gallai dulliau cryfhau systemau eu cefnogi, ynghyd â chyflwyniad i theori dulliau systemau cymhleth a ddarparwyd gan yr Athro Harry Rutter o Brifysgol Caerfaddon. Nododd fod rhywfaint o gyllid cyfyngedig ar gael ac roedd wedi codi'r posibilrwydd o ddefnyddio hwn i gefnogi'r agenda *Cryfhau Cymunedau*. Nododd NP nad oedd yn gallu mynychu'r gweithdy nesaf ar 16 Mawrth, er bod JM wedi dweud y byddai'n mynychu. Byddai diweddariadau pellach yn dilyn pan fyddant ar gael.

6. Cynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Nododd NE fod KB wedi anfon ei ymddiheuriadau gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond wedi gofyn am gael mynychu cyfarfod yn y dyfodol i gyflwyno gwybodaeth am y cynllun ardal. Dywedodd NP ei fod yn awyddus i gryfhau cysylltiadau rhwng y Bwrdd

Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac felly byddai cynrychiolydd yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill.

7. Adolygiad o Pride yn Sir Benfro

Nododd NP yr adolygiad a gynhaliwyd ac amlygwyd problemau gyda'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau am wobwr Pride yn Sir Benfro yn y papur. Nododd SL ei siom gyda'r awgrym i roi'r gorau i'r wobwr ac awgrymodd y dylid ei rhoi i'r neilltu a'i hadolygu yn y dyfodol, o bosibl i'w chynnwys yng ngwaith *Cryfhau Cymunedau*, gan ei bod yn ymwybodol bod y cyhoeddusrwydd a'r wobwr ariannol wedi bod yn ddefnyddiol i enillwyr blaenorol. Cytunodd partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â'r cynnig hwn.

8. Unrhyw fater arall

Awgrymodd TJ y dylid gwahodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i fynychu cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r comisiynydd newydd. Nododd LR fod Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cysylltu i ofyn am restr o ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at y diben hwn.

Nododd SPJ y byddai'n ymddeol o Gyngor Sir Penfro yn fuan felly dyma fyddai un o'i gyfarfodydd diwethaf gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Diolchodd NP i SPJ ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am ei gyfraniadau i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros ei gyfnod gyda'r bwrdd a dymunodd y gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am.

Cofnod camau gweithredu

Rhif	Tud.	Cam gweithredu	Dyddiad targed	Perchennog	Datrysiad
1	3	Gwneud mân newidiadau i'r cynllun fel y cytunwyd cyn ei gymeradwyo a'i gyhoeddi'n derfynol	25-4-2023	LR	Gorffenedig
2	3	NP i gwrdd ag NE ac LR i drafod strwythurau cyflawni	Cyn gynted â phosibl	LR	Gorffenedig
3	4	Trefnu cyfarfod grŵp cyflawni <i>Cryfhau Cymunedau</i>	Cyn gynted â phosibl	LR	Gorffenedig
4	4	Ychwanegu cyflwyniad ar Gynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i agenda'r cyfarfod nesaf	25-4-2023	LR	Gohiriedig (Cadeirydd)